*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **11/02/2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Richard Fairhead, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Richard Fairhead (01745 535257)** |
| Pwnc | **Datblygiadau o ran y ddarpariaeth Asedau Cydnerthedd Cenedlaethol yng Ngogledd Cymru** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am ddarpariaeth asedau Cydnerthedd Cenedlaethol yng Ngogledd Cymru.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol yn yr Unol Daleithiau ar 11 Medi 2001, darparodd Llywodraeth y DU gyllid i ddatblygu nifer o asedau Cydnerthedd Cenedlaethol i ddelio ag ymosodiadau terfynol posibl yn y DU.

3 Roedd yr asedau'n cynnwys Unedau Ymateb i Ddigwyddiadau (IRU) a gafodd eu datblygu i dihalogi niferoedd fawr o bobl yn dilyn unrhyw ollyngiadau cemegol neu fiolegol ar raddfa fawr. I ddechrau, lleolwyd dwy uned IRU yng Ngogledd Cymru – sef un ym Mangor ac un yng Nglannau Dyfrdwy – ond yn dilyn adolygiad o ddarpariaeth genedlaethol y cerbydau hyn, cafodd yr uned IRU yng Nglannau Dyfrdwy ei datgomisiynu yn 2016.

4 Mae adolygiad mwy diweddar o'r rhagdybiaethau a'r dull cynllunio ar gyfer halogi torfol wedi canfod y byddai unedau llai o faint a mwy ystwyth yn fwy effeithiol nag unedau IRU oherwydd byddent yn cymryd llai o amser i'w sefydlu ac i ddechrau dihalogi pobl.

5 Felly, yn ystod 2019/20, bydd Uned Dihalogi Torfol (MDU) yn dod yn lle'r uned IRU sydd ym Mangor.

6 Ni fydd y newid hwn yn cael unrhyw effaith ariannol ar yr Awdurdod gan fod yr asedau Cydnerthedd Cenedlaethol, a'r costau refeniw parhaus, yn cael eu hariannu yng Nghymru drwy grant gan Lywodraeth Cymru.

**ARGYMHELLION**

7 Bod yr Aelodau'n nodi:

(i) canlyniad rhagdybiaethau a dull cynllunio diwygiedig Llywodraeth y DU ar gyfer penderfynu ar y gofynion o ran asedau Cydnerthedd Cenedlaethol yn y DU; ac

(ii) y penderfyniad i gael uned MDU yn lle'r uned IRU ym Mangor yn ystod 2019/20.

**CEFNDIR**

8 Yn dilyn yr ymosodiadau terfysgol yn yr Unol Daleithiau ar 11 Medi 2001, darparodd Llywodraeth y DU gyllid i ddatblygu nifer o asedau o'r enw asedau Cydnerthedd Cenedlaethol (*National Resilience*) ar gyfer gwasanaethau tân ac achub ledled y DU i ddelio ag ymosodiadau terfysgol posibl. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Unedau IRU (Ymateb i Ddigwyddiadau) i ddihalogi niferoedd mawr o bobl yn dilyn gollyngiadau cemegol neu fiolegol ar raddfa fawr;
- Timau Chwilio ac Achub Trefol (*USAR*) i gynorthwyo i achub a chanfod unigolion sy'n gaeth ar ôl i adeiladau ddymchwel;
- Swyddogion Canfod, Adnabod a Monitro i ganfod, adnabod a monitro gwahanol halogyddion cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear sydd wedi gollwng;
- Pympiau Cyfaint Mawr (*HVP*) i symud cyfaint mawr o ddŵr dros bellter mawr.

9 Roedd y modd o ddosbarthu'r asedau hyn yn seiliedig ar ragdybiaethau cynllunio a oedd yn ystyried tebygolrwydd, a safleoedd posibl, ymosodiadau terfysgol yn y DU o ran, er enghraifft, canolfannau trafnidiaeth pwysig, canolfannau dosbarthu cyfleustodau hanfodol, a chanolfannau poblogaeth mawr.

10 Roedd y ddarpariaeth refeniw i gynnal yr asedau hyn, ac i hyfforddi staff a chynnal eu cymhwysedd i'w defnyddio, yn cael ei hariannu gan Lywodraeth y DU yn Lloegr a gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru.

11 O'r saith uned IRU a'r pedwar pwmp HVP a ddyrannwyd i Gymru, cafodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ddwy uned IRU (a leolwyd ym Mangor a Glannau Dyfrdwy) ac un pwmp HVP (a leolwyd yn Llandudno).

12 Yn 2010, cafodd perchnogaeth yr asedau ei throsglwyddo i'r awdurdodau tân ac achub (ATAau).

13 Yn 2016, cafodd y rhagdybiaethau cynllunio eu hadolygu i gymryd ystyriaeth o natur newidiol ymosodiadau terfysgol. Yna, cafodd nifer yr unedau IRU yn y DU ei ostwng o 70 (7 yng Nghymru) i 46 (4 yng Nghymru).

**GWYBODAETH**

14 Yn ystod 2017/18, yn Lloegr, arweiniodd adolygiad pellach o'r rhagdybiaethau, y dull a'r gofynion cynllunio ar gyfer dihalogi niferoedd mawr o bobl at gael unedau MDU yn lle'r unedau IRU.

15 Mae'r unedau MDU yn llai o faint ac maent yn fwy ystwyth, felly mae hi'n cymryd hanner yr amser i osod yr offer ac i ddihalogi pobl.

16 Cwblhawyd adolygiad tebyg yng Nghymru o'r rhagdybiaethau cynllunio. Ar sail yr un rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd gan y Swyddfa Gartref yn Lloegr, ac yn amodol ar gael cymeradwyaethau gweinidogol, bydd y pedair uned URU yng Nghymru yn cael eu datgomisiynu a bydd pum uned MDU yn dod yn eu lle. Mae swyddogion o'r Gwasanaeth wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion o Lywodraeth Cymru, cydweithwyr o Loegr a'r cyrff cynrychioliadol gan ddisgwyl y newid hwn yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20.

17 Ystyrir mai bach iawn yw effaith y newid hwn yng Ngogledd Cymru. Bydd uned MDU yn dod yn lle'r uned IRU sydd ym Mangor ar hyn o bryd. Ni fydd unrhyw oblygiadau ariannol i'r Awdurdod oherwydd bydd cost unrhyw offer ychwanegol angenrheidiol yn cael ei hariannu fel rhan o grant cyfalaf cydnerthedd cenedlaethol, a bydd cost hyfforddiant parhaus i'r staff, a chynnal eu cymhwysedd, yn cael ei thalu gan y grant refeniw blynyddol ar gyfer cydnerthedd cenedlaethol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Ni chanfuwyd dim. |
| Cyllideb | Dim goblygiadau cyllidebol i'r Awdurdod oherwydd bydd y costau cyfalaf a refeniw yn cael eu talu gan grantiau Cydnerthedd Cenedlaethol. |
| Cyfreithiol | Bydd angen cael cadarnhad o drosglwyddo'r asedau, ac o unrhyw oblygiadau cyfreithiol, a bydd angen i'r Awdurdod gael sicrwydd y bydd y cytundeb presennol yn parhau ar ôl i'r asedau newid. |
| Staffio | Ni chanfuwyd dim. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd dim. |
| Risgiau | Cyn y newid arfaethedig, bydd rhaid cael cadarnhad gan Lywodraeth Cymru na fydd y newid hwn yn golygu unrhyw oblygiadau cyfreithiol neu ariannol i'r Awdurdod. |